
# Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy 2021-2026




CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**



# Cynnwys


**Rhagarweiniad** 5

**Strategaeth Foderneiddio Llyfrgelloedd 2012-2019** 9

**Strategaeth Llyfrgelloedd Conwy 2021-2026** 11

Y Cyd-destun 11

Ein Gweledigaeth 11

Sut ydym ni'n darparu ar Ganlyniadau a Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Conwy 12

Ein Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2021-2026 12

Camau Gweithredu 14

Sut byddwn ni'n monitro cynnydd 14


*'Beth mae llyfrgelloedd yn ei gynnig i ni? Wel, maen nhw'n cyflwyno byd o lythrennedd a dysg i nifer ac yn helpu ei wneud yn arfer sy'n para oes; maent yn unioni; maent yn dysgu empathi ac yn ein helpu i ddysgu am ein gilydd; maent yn cynnal ein treftadaeth ddiwylliannol; maent yn gwarchod ein hawl i wybod a dysgu; maent yn ffurfio cymunedau; maent yn cryfhau ac yn ein symud ymlaen fel gwlad; maent yn ein grymuso fel unigolion.'*

Malorie Blackman, OBE. Awdur a chyn Fardd Plant (2013-2015).

**Beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud:**
Dydw i ddim yn gwybod beth y byddwn yn ei wneud heb lyfrau. Mae'n anadl einioes - anadl einioes gwirioneddol.




**Beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud:**
Rwyf wedi defnyddio'r llyfrgell ers i mi ddysgu darllen 65 mlynedd yn ôl. Rwyf bellach yn dioddef o broblemau golwg ac mae'r llyfrau print bras yn amhrisiadwy. Byddem ni ar goll heb y llyfrgell.

# Rhagarweiniad

## Yr hyn rydym yn ei wneud:

Mae ein llyfrgelloedd yn cynnig llyfrau am ddim i oedolion a phlant; mynediad at wybodaeth; cyfrifiaduron a Wi-Fi. Mae gennym staff gwybodus sy'n cynnig cyngor a chymorth arbenigol. Mae ein hadeiladu'n cynnig man diogel i holl aelodau'r gymuned ac yn byrth ar gyfer lles, dysgu a mwynhad.


### Rydym yn:

- Darparu cyfleoedd gwaith drwy brentisiaethau. Mae nifer o'n prentisiaid wedi cael swydd gyda'r gwasanaeth.
- Helpu pobl fel Mrs A ac M sydd yn eu 80au i fynd ar-lein. Dysgodd Mrs A sut i ddefnyddio iPad ac M i ddefnyddio Skype i gyfathrebu gyda theulu sy'n byw dramor.
- Cynnal grŵp darllen ar y cyd. Drwy hanesion a barddoniaeth rydym yn trafod materion, fel marwolaeth, cariad, rhyfel, rhannu profiadau a chynnig cefnogaeth ac anogaeth.
- Helpu plant i ddysgu darllen a darllen yn uchel drwy ein gwaith gyda chŵn therapi.
- Cefnogi pobl fel John, gofalwr ifanc sy'n edrych ar ôl ei dad. Ychydig o lyfrau sydd gartref. Pan gafodd John ei gerdyn llyfrgell, dechreuodd ddefnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd a dechreuodd ddarllen am bleser.
- Darparu llyfrau print bras a llyfrau llafar i bobl fel Mrs T sydd yn ei 80au, a'i merch sydd ag anableddau difrifol, drwy'r Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref.
- Darparu cyfleodd dysgu. Gweithiodd troseddwr ifanc fel gwirfoddolwr mewn Llyfrgell Gymunedol. Daeth yn fwy hyderus, dechreuodd gwrs hyfforddiant a chynigwyd swydd lawn amser iddo.

## Yng Nghonwy, darperir y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth cyhoeddus drwy:

- Bum Llyfrgell Ardal (Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst), gan ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau llyfrgell a gwybodaeth.
- Pum Llyfrgell Gymunedol (Cerrigydrudion, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Bae Penrhyn a Bae Cinmel). Mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned, mae Conwy'n darparu gwasanaeth llyfrgell a gwybodaeth proffesiynol mewn adeilad a reolir gan grwpiau Llyfrgell Cymunedol, sy'n defnyddio'r adeilad ar gyfer ystod o weithgareddau eraill.
- Mae Llyfrgell i'r Cartref Conwy yn dod â llyfrau, llyfrau llafar a gwybodaeth i'r rhai hynny sy'n gaeth i'w cartrefi neu'r rhai hynny sy'n methu defnyddio cyfleusterau llyfrgell am eu bod yn gofalu am bobl sy'n gaeth i'w cartrefi.
- Mae Llyfrgell Deithiol Conwy'n dod â llyfrau, llyfrau llafar a gwybodaeth i gymunedau sy'n bell i ffwrdd o adeiladau llyfrgell. Mae'r Llyfrgell Deithiol hefyd yn ymweld ag ysgolion gwledig.
- Mae Llyfrgell Ddigidol Conwy'n cynnig mynediad 24 awr y dydd i wybodaeth, e-lyfrau, llyfrau llafar, cylchgronau a chomics.

## Mewn wythnos, rydym yn delio gyda:







**Beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud:**
Mae’n rhoi rhywle heddychlon a distaw lle rwy’n gallu gweithio ar brosiectau heb ymyrraeth neu amhariad tu allan. Mae hyn yn helpu’n eithriadol gyda fy lles personol.



Beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud:
Gyda chymorth staff y llyfrgell, rydw i wedi gallu defnyddio'r we ar gyfer sawl tasg ddefnyddiol, fel biliau newydd (nid yw'r we ar gael yn fy nghartref).

## Strategaeth Foderneiddio Llyfrgelloedd 2012-2019

Mae'n hanfodol bod ein hadeiladau llyfrgell yn cynnig amgylcheddau diogel, ysbrydoledig a hygyrch ac yn cynnig gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cymunedol eang, cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Foderneiddio Llyfrgelloedd ym mis Rhagfyr 2011. Roedd hyn yn amlinellu'r blaenoriaethau i'r gwasanaeth hyd at 2019 ac yn cynnwys adnewyddu adeiladau llyfrgell ac yn moderneiddio'r ffordd y caiff gwasanaethau llyfrgell eu darparu. Er gwaethaf y cyfyngiadau ar y gyllideb o dros £470,000 o 2014, rydym wedi darparu amcanion craidd y Strategaeth:

- Diwygiwyd oriau agor a staffio ar draws yr holl lyfrgelloedd.
- Adolygwyd teithiau Llyfrgell Deithiol ac maent bellach wedi eu canolbwyntio yn yr ardaloedd sydd bellaf oddi wrth adeiladau llyfrgell. Mae'r Llyfrgell Deithiol hefyd yn cynnig gwasanaeth i ysgolion gwledig.
- Sefydlwyd pum Llyfrgell Gymunedol a phrydleswyd yr adeiladau i grwpiau Llyfrgell Cymunedol. Mae'r llyfrgelloedd hyn wedi dod yn Ganolbwyntiau Cymunedol, sy'n cynnig ystod o wasanaethau a swyddogaethau.
- Rhan olaf y Strategaeth oedd agor Llyfrgell Ardal newydd i Gonwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy ym mis Rhagfyr 2019.

Drwy gyflawni'r Strategaeth hon, cyfarfu'r gwasanaeth â holl dargedau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru am y tro cyntaf yn 2016-17.

Rydym wedi cyflawni llawer ers 2012, ond mae angen mwy o newid i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid a darpar gwsmeriaid, ac yn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth.



**Beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud:**
Wedi fy nghefnogi i ddysgu Cymraeg drwy ystod o lyfrau.



# Strategaeth Llyfrgelloedd Conwy 2021-2026

## Y Cyd-destun

Wrth ysgrifennu'r Strategaeth hon, rydym wedi ystyried:

- Ymrwymiadau statudol Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd (1964) a'i asesiad drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Ystod o strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol, yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-23.
- Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Conwy.
- Adborth ymgynghoriad cyhoeddus.
- Nifer llai o staff a chyllideb is.
- Amcangyfrifir mai costau cyfalaf gwaith cynnal a chadw hanfodol i'n hadeiladau llyfrgell yw: Llyfrgell Abergele £42,000; Llyfrgell Bae Colwyn £175,000; Llyfrgell Llandudno £90,000 a Llyfrgell Llanrwst £162,000.

## Ein Gweledigaeth

**Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth sy'n gynhwysol, arloesol a bydd yn ysbrydoli ac yn galluogi ein defnyddwyr i fod wedi eu cysylltu â'u cymunedau.**

Gwasanaeth dwyieithog sy'n:

- Hygyrch i bawb ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Darparu mynediad lleol i wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor.
- Cynnig gofod diogel a chefnogol i bobl ddarllen am bleser, benthyg llyfrau, defnyddio cyfrifiaduron a Wi-Fi; cyfarfod a rhannu syniadau.
- Hyrwyddo iechyd a lles personol drwy leihau unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol ac annog cyfranogiad ymarferol.
- Dod o hyd i ddatrysiadau arloesol i heriau.
- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi dysgu, creadigrwydd, a chyflogadwyedd dinasyddion Conwy.
- Magu cynaliadwyedd drwy fenter.

## Sut ydym ni'n darparu ar Ganlyniadau a Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Conwy

**'Byddwn yn datblygu ein llyfrgelloedd yn Ganolbwyntiau Cymunedol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau'.**

| Byddwn yn parhau i ddarparu ein gweithgareddau craidd | Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol |
|---|---|
| • Mynediad am ddim i gyfrifiaduron cyhoeddus a Wi-Fi<br>• Mynediad 24 awr i lyfrau ac adnoddau drwy'r Llyfrgell Ddigidol<br>• Yn darparu mynediad lleol at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor<br>• Gweithio gyda phartneriaid, cynnig cyngor ar swyddi, cwestiynau defnyddwyr/eraill<br>• Mynediad i adnoddau Addysg Uwch ac Addysg Bellach<br>• Darllen yn Well; Llyfrau ar Bresgripsiwn<br>• Cefnogi pobl i gael mynediad i wasanaethau ar-lein | Sgiliau<br>Twf<br>Iechyd |
| • Llyfrau am ddim a deunyddiau benthyg ar amryw o ffurfiau<br>• Darllen dwyieithog a llythrennedd i blant: e.e. Dechrau Da, Sialens Ddarllen yr Haf ac Amser Stori (mewn Llyfrgelloedd Ardal)<br>• Llyfrgell iechyd a lles<br>• Llyfrau a deunyddiau Cymraeg helaeth | Sgiliau<br>Diwylliant<br>Yr Amgylchedd<br>Iechyd |
| • Mynediad at staff proffesiynol, cymwys<br>• Prentisiaethau Modern a chyfleoedd gwirfoddoli<br>• Gweithio gyda phartneriaid, cynnig sgiliau sylfaenol a dysgu i oedolion<br>• Grwpiau darllen, gan gynnwys rhai yn Gymraeg<br>• Darllen ar y Cyd | Sgiliau<br>Twf<br>Iechyd<br>Diwylliant |
| • Llyfrau a deunyddiau i'r rhai hynny sy'n gaeth i'w cartrefi<br>• Ymgysylltu'r rhai sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol | Iechyd |
| • Mannau diogel i gwrdd ag eraill<br>• Mynediad am ddim i Ancestry/Findmypast<br>• Arddangosfeydd treftadaeth a chelf | Iechyd<br>Diogelwch<br>Diwylliant |
| • Grŵp sgwrsio yn y Gymraeg | Diwylliant |
| • Gweithgareddau a digwyddiadau gan gynnwys digwyddiadau awduron | Diwylliant<br>Iechyd |

## Ein Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2021-2026

Gydag agoriad swyddfeydd newydd y Cyngor yng Nghoed Pella, Bae Colwyn yn 2018, daethpwyd a gwasanaethau'r Cyngor at ei gilydd. Mae staff Llyfrgell a Gwybodaeth, sy'n gweithio mewn swyddi blaen tŷ, yn cynorthwyo gydag ymholiadau trigolion ac yn cyfeirio at wasanaethau.






**Beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud:**
Pan rydw i dan straen gyda fy iechyd meddwl, mae'n lle heddychlon i fod ynddo! Lle i anadlu.

Bydd modd i drigolion gael mynediad i wasanaethau a gwybodaeth y Cyngor yn eu hardaloedd wrth i lyfrgelloedd ddod yn bwynt cyswllt uniongyrchol i drigolion y Cyngor ledled y Sir.

I ddatblygu'r model hwn, mae angen mwy o gydleoli gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau nad ydym yn dyblygu darpariaeth; bod adeiladau'n ateb y gofyn a bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.

## Camau Gweithredu

1. Parhau i ddarparu Strategaeth Ddiwylliant Conwy drwy gefnogi rhaglen weithredol o weithgareddau diwylliannol.
2. Cymryd rhan mewn astudiaeth ddichonoldeb, a nodwyd fel rhan o'r prif gynllun, ar gyfer Canolbwynt Cymunedol yng ngorllewin Abergele.
3. Cynnal astudiaeth opsiynau ar gyfer darparu canolbwynt cymunedol yn Llyfrgell Bae Colwyn.
4. Parhau i ddatblygu Canolfan Ddiwylliant Conwy.
5. Gwerthuso'r model Llyfrgell Gymunedol ar ôl 5 mlynedd mewn bodolaeth. Cytuno ar fodel cynaliadwy ar gyfer y 5 mlynedd nesaf mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned.
6. Parhau i weithio mewn partneriaeth ag iechyd a gofal cymdeithasol i archwilio'r ystod o gyfleoedd y mae gofod llyfrgell ac adnoddau'n eu darparu i gefnogi iechyd meddwl a lles.
7. Cynyddu'r defnydd o dechnoleg i wella mynediad i wasanaethau gwybodaeth y Cyngor.
8. Datblygu gwasanaethau i gymunedau sy'n bell i ffwrdd o wasanaethau'r Cyngor, drwy ddefnyddio'r Llyfrgell Deithiol a'r Llyfrgell i'r Cartref.

## Sut byddwn ni'n monitro cynnydd

Mesurir cynnydd ar y Strategaeth drwy:
Yr adroddiad blynyddol ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac asesiad Llywodraeth Cymru sy'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet; proses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth Cyngor Conwy; adborth cwsmeriaid ac arolygon defnyddwyr llyfrgelloedd.

Rydym yn fwy na bodlon darparu'r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn llafar a braille. Cysylltwch â:
**E-bost: llyfrgell@conwy.gov.uk**
**Ffôn: 01492 576139**
**www.conwy.gov.uk/llyfrgelloedd**

Gall cwsmeriaid sydd â nam clyw neu leferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu 18001 cyn y rhif maent ei angen.